monmouthshire
sir fynwy

**CABINET**
**COFNOD PENDERFYNIADAU**

**DYDDIAD GWNEUD PENDERFYNIAD: Dydd Mercher, 1 Mawrth 2017**

**DAW'R PENDERFYNIAD I RYM AR: Dydd Gwener 10 Mawrth 2017**
*Decisions made by full cabinet and individual cabinet members are subject to "Call-in" by the appropriate Select Committee. Should a decision be subject to call-in it will not take effect as stated above and will be presented again at a later date.*

**AELODAU'R CABINET YN BRESENNOL:**

Cynghorwyr Sir G. Burrows, R.J.W. Greenland, E. Hacket Pain, P.A.D. Hobson, S.B. Jones, P. Murphy, D. Batrouni and F. Taylor

**AELODAU ETHOLEDIG ERAILL YN BRESENNOL:**

Cynghorwyr Sir D. Batrouni a F. Taylor

**SWYDDOGION YN BRESENNOL**

J. Robson, C. Marchant, W. McLean, R. Jowitt, P. Matthew, M. Moran, R. Jones, S. Schofield, R. Tranter

**CYNRYCHIOLWYR EAS:**

G. Willington, K. Palmer, K. Bevan, N. Allan

| Eitem Rhif | Title | Diben, Ymgynghoriad ac Awdur | Datganiad Diddordeb | Decision |
|---|---|---|---|---|
| **4a** | Adroddiad Diogelu Cynnydd | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Bod y Cabinet yn nodi cynnydd a her hunanasesiad y Grŵp Cydlynu Diogelu Awdurdod Cyfan (WASCG)<br><br>Bod y Cyngor yn cefnogi'r bwriad i ffocysu'r rhaglen diogelu a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2016 o gymharu â'r pum maes blaenoriaeth.. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4b** | Effeithlonrwydd Gwasanaethau Cyngor – Diweddariad Cynnydd Chwarter 3 | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Bod y Cabinet yn defnyddio'r adroddiad hwn i helpu eu monitro a gwerthusiad parhaus o effeithlonrwydd gwasanaethau ac i ba raddau y maent yn cyfrannu at flaenoriaethau'r cyngor ar addysg plant, cefnogaeth i bobl agored i niwed, menter a chreu swyddi a chynnal gwasanaethau lleol cyfleus.<br><br>Bod y Cabinet yn defnyddio'r adroddiad fel cyfle i ddynodi unrhyw gamau y gall fod angen eu cymryd i hybu gwelliant, gan sicrhau fod gwasanaethau mor effeithlon ac effeithiol ag sydd modd yng nghyd-destun yr adnoddau cyfredol. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4c** | Gwasanaethau Gwastraff a Stryd: | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Cymeradwyo'r strwythur arfaethedig a newidiadau i'r sefydliad craidd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Newidiadau Sefydliad – Mireinio i Drawsnewid | | | Cymeradwyo dirprwyo mân addasiadau, a all ddigwydd ar ôl i ymgynghoriad staff ddod i ben, i Bennaeth Gwasanaethau Gwastraff a Stryd yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet Gweithrediadau ar y ddarpariaeth y cynhelir yr amlen cyllid fel yr amlinellwyd.. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4d** | Kingfisher Rise Cyllid Adran 106 | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Creu cyllideb gyfalaf o £219,710 yn 2017/18 i gyfrannu tuag at gost prosiectau a nodir yn 2.2 islaw ac y caiff hyn ei gyllido gan gyfraniad cyfatebol o falansau Adran 106 a gedwir gan y Cyngor Sir yng nghyswllt datblygiad Kingfisher Rise, Magwyr (cod Cyllid N57).<br><br>Bod £73,236.50 yn cael ei ddyrannu i bob un o'r tri phrosiect dilynol a bod swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r sefydliadau perthnasol i helpu dod â'r prosiectau i ffrwyth:<br><br>• Datblygiad Safle Tri Chae<br>• Gwelliannau Hamdden Cae Sycamorwydden<br>• Gwelliannau Cae Chwarae Gwndy<br><br>Bod y grantiau i Glwb Athletau Gwndy a Chyngor Cymuned Magwyr gyda Gwndy yn cael eu gwneud yn amodol ar delerau ac amodau safonol A106 y Cyngor ac yn amodol i'r ymgeiswyr perthnasol yn cyflwyno cynllun busnes boddhaol cyn rhyddhau unrhyw daliadau i gefnogi eu cynigion, yn cynnwys manylion defnydd presennol a defnydd a ragwelir ar gyfer y dyfodol.<br><br>Bod yn rhaid cyflwyno pob cynllun busnes a'u cymeradwyo gan Aelod Cabinet Adnoddau a Phennaeth Cyllid erbyn 31 Rhagfyr 2017 fan bellaf.. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4e** | Cynnig i Drosglwyddo Ased Gymunedol Caeau Chwarae Clwb Pel-droed Gwndy | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Cytuno gwaredu â'r diddordeb rhydd-ddaliad yng Nghaeau Chwarae Clwb Pêl-droed Gwndy ar Ddim Gwerth i Glwb Pêl-droed Gwndy Athletig yn defnyddio'r pwerau a roddwyd drwy Orchymyn Cydsyniad Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4f** | Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) Cynllun Busnes 2017-2020 | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Bod y Cabinet yn cymeradwyo Cynllun Busnes EAS a'r atodiad Awdurdodau Lleol. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4g** | 2017/18 Strategaethau Buddsoddi a Chronfa Addysg a Chronfa'r Degwm | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Cymeradwyo'r Strategaeth Buddsoddi a Chronfa arfaethedig ar gyfer 2017/18 ar gyfer Cronfa Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy.<br><br>Cymeradwyo'r Strategaeth Buddsoddi a Chronfa arfaethedig ar gyfer 2017/18 ar gyfer Cronfa Degwm Cymru. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Dirprwyo cyfrifoldeb am weithredu a gweinyddu penderfyniadau rheoli trysorlys i'r Pennaeth Cyllid (swyddog A151) fydd yn gweithredu yn unol â'r strategaeth Buddsoddi a Chronfeydd (atodiad 2).<br><br>Cymeradwyo dyraniad grant 2017/18 i fuddiolwyr yr Awdurdod Lleol i Gronfa Degwm Cymru Sir Fynwy o £20,000 i'w ddosbarthu yn unol â chyfrannau poblogaeth fel yng Nghyfrifiad 2010.<br><br>Cymeradwyo'r egwyddor bod dyraniad grant 2017-18 yng nghyswllt Cronfa Ymddiriedolaeth Ffermydd Sir Fynwy yn cydymffurfio'n agos gydag adenilliad buddsoddiad blynyddoedd blaenorol ar ddiwedd mis Mawrth 16 i osgoi erydu'r gronfa gyffredinol. Fel canllaw, rhagwelir y bydd adenillion buddsoddi tua £15,000.<br><br>Cymeradwyo Egwyddorion, Ystyriaethau Polisi a Meini Prawf Dyrannu Grantiau Cronfa Degwm Cymru 2017-18 (Atodiad 7) fel y'u hystyriwyd gan Bwyllgor Cronfa Degwm Cymru ar 19 Ionawr 2017. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4h** | Gweithgor Cronfa'r Degwm | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Dyfarnu'r grantiau dilynol fel rhan o'r rhestr ceisiadau, gan nodi'r diwygiad dilynol:<br><br>*Gwnaeth Eglwys Fethodistaidd Trefynwy gais am £4,000 i gynorthwyo i adnewyddu'r Gegin a'r' 'Ystafell Uchaf' ar gyfer clybiau brecwast a chinio rheolaidd ar gyfer pensiynwyr a'r gymuned ehangach yn ogystal â darparu clwb ar ôl ysgol ar gyfer disgyblion Sir Fynwy.*<br><br>*Argymhelliad - Dyfarnwyd £2,000 i gynorthwyo gydag adnewyddu'r ased cymunedol i ddarparu cyfleusterau gwell ar gyfer darpariaeth gymunedol..*<br>. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| **4i** | Rheolwr Gwasanaeth Diogelu a Sicrwydd Ansawdd | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD:<br>Bod Aelodau'n cymeradwyo a chadarnhau'r cynnig i greu Rheolwr Gwasanaeth Diogelu a Sicrwydd Ansawdd a'r strwythur diwygiedig ar gyfer yr Uned Gwasanaeth Diogelu a Sicrwydd Ansawdd a nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad.<br><br>Bod Aelodau'n cytuno y caiff y gost ychwanegol ei thrin drwy'r flwyddyn ac y bydd y galwad cyntaf ar unrhyw allberformiad mewn cyllidebau cyllid corfforaethol.<br><br>Bod Aelodau'n cytuno i gronfa wrth gefn o tua £60k ar gyfer 2017/18, sy'n cynrychioli'r pwysau adnoddau fel canlyniad i greu'r swydd. Bydd angen cadarnhau'r gyllideb yng nghyllideb Cyngor 2018/19. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | | | | |
| | | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD: |

| |
|---|
| **Gwybodaeth ychwanegol:** |